**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Llun, 9 Awst 2021 am 10.00am.

**Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Angela Pring - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**Swyddogion yn bresennol:-**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd Rheoli’r Gronfa Bensiwn a’r Trysorlys
Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau

**1 Datganiadau o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**2 Cofnodion**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 26 Ebrill 2021 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**3 MATERION SY'N CODI**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
y diweddariadau canlynol i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ym mis Ebrill 2021:

- Tudalen 3; Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod trafodaethau mewn perthynas â chynyddu oedran pensiwn y wladwriaeth yn parhau.

- Tudalen 3: Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys fod adroddiad Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi'i gymeradwyo ac wedi'i ddychwelyd i'r Awdurdod lleol sy'n derbyn
- Tudalen 4: Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion bod arolwg TG Aon wedi'i ddyrannu a bod hyn yn galonogol
- Tudalen 6: Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys fod y polisi pwrpasol yn dal i gael ei ddatblygu mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

*Dolen i Gydbwyllgor diweddaraf Partneriaeth Pensiynau Cymru ar 28 Gorffennaf 2021:*

- Nododd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys fod cynnig y rheolwr wedi'i gymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

*Pwyntiau gweithredu Ebrill 2021:*

- Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod y taflenni hyrwyddo wedi'u seibio ac y bydd yr Aelodau'n cael eu hysbysu pan fydd unrhyw ddatganiad budd ar gael.

**4 Panel Ymgynghori - Buddsoddi a Gweinyddu**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghori a Buddsoddi - Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 7 Mehefin 2021.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
bod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi cynyddu o £4,417 miliwn (31 Rhagfyr 2020) i £4,493 miliwn (31 Mawrth 2021). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 oedd 34.1%, gan ragori ar feincnod penodol y cynllun, sef 23.2%.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at ffigurau cyflawniad tair blynedd y rheolwyr gweithredol.
a chawsant eu cyfeirio hefyd at y cyflwyniad gan Mercer,
Veritas a Baillie Gifford.

O ran sgiliau a gwybodaeth, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Caffael a
Thrafodion y Bwrdd at newidiadau staff
a bod y Cynghorydd Hooper wedi'i ychwanegu at Bwyllgor y Gronfa Bensiwn
yn dilyn newid yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor.

Cafwyd trafodaethau a rhannodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd o ran trefniadau llywodraethu a Chofrestr Risgiau'r Gronfa.

Mewn perthynas â Phrisiad Diwedd Blwyddyn, nodwyd bod templedi ar gyfer Ymarfer 2021 wedi'u cyhoeddi i'r holl Gyflogwyr a bod tua hanner wedi'u derbyn mewn perthynas â'r dyddiad cau ar 7 Mai.

O ran Cyfathrebu, cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Bwrdd fod Aelodau Pensiwn wedi cael gwybod am y cynnydd o ran Pensiwn a bod y fforwm Cyfathrebu Gweithwyr wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf.

Aeth y Bwrdd hefyd ati i nodi a thrafod y cynnydd o ran gweithredu I-connect.

Yna cyfeiriwyd Aelodau o'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa.

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd Rheoli'r Gronfa Bensiwn a'r Trysorlys y newyddion diweddaraf am adroddiad cynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru.
Dywedwyd wrth yr aelodau, yn dilyn y prosbectws a ailgyflwynwyd, bod y troshaeniad Buddsoddi Cyfrifol o'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang wedi cychwyn ar 1 Ebrill 2021. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd bod y y dyddiad trosglwyddo ar gyfer lansio cyfran y marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg nawr wedi'i amcangyfrif fel Hydref 2021.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod y wybodaeth sydd wedi'i diweddaru.

## 5 Monitro Risg

Cafodd Aelodau o'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Mewn perthynas â chyfuno Partneriaeth Pensiynau Cymru, roedd Aelodau'r Bwrdd hefyd yn teimlo ei bod yn bwysig ychwanegu dwy risg ychwanegol:

1. Y risg y bydd data cyfrinachol yn cael ei ryddhau; ac,
2. Y risg y bydd y gronfa'n cymryd camau cywirol mewn perthynas ag unrhyw gamymddwyn.

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

## 6 Cydgyfrannu Cymru Gyfan

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd fod y cynllun busnes wedi'i gymeradwyo gan y Cydbwyllgor a RhCT Dywedwyd wrth y Bwrdd fod gwaith yn parhau ar is-grŵp y farchnad breifat a bod arferion gweithio rhithwir yn parhau. Cytunodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys i edrych i weld a ellir dosbarthu adroddiad Partneriaeth Pensiynau Cymru i Aelodau'r Bwrdd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiynau Cymru.

## 7 Fframwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr Aelodau at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r cynllun hyfforddi ar gyfer mis Tachwedd 2019 i fis Mawrth 2020.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion i'w hychwanegu at y rhestr yn barhaus.

Cytunwyd i ychwanegu'r dyddiadau canlynol:

- 23 Mehefin 2021: Hyfforddiant Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS); ac,
- 20 Gorffennaf 2021: Hyfforddiant Cyfuno Partneriaeth Cymru

Roedd y Cadeirydd hefyd am roi ei ddiolch i Bartneriaeth Pensiynau Cymru am gynnig hyfforddiant i Gadeiryddion i bawb.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth mewn perthynas â fframwaith gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd.

## 8 Llywodraethu - Diweddariad o ran Covid

Cafodd yr Aelodau sicrwydd ar lafar ynghylch y trefniadau Llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i bandemig Covid.

Hysbyswyd aelodau'r bwrdd fod swyddogion yn dal i weithio o bell, fodd bynnag, mae cynllun peilot ar waith ar hyn o bryd lle gall swyddogion fynychu'r swyddfa ddeuddydd yr wythnos ar sail rota. Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd am lwyddiant y cynllun peilot hyd yma.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

## 9 Deddfwriaeth a Materion Gweinyddol

- *Diweddariad ar Ddatganiadau Buddion Blynyddol:*
  Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd y bydd y datganiad budd blynyddol yn cael ei gynhyrchu cyn y dyddiad cau.

- *McCloud:*
  Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd ar y 19 Gorffennaf, aeth y Mesur Barnwrol Pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus gerbron y Senedd. O ganlyniad, bydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn gallu tynnu'r gofynion at ei gilydd i gynnwys mesurau ôl-weithredol. Mae angen i'r rheoliadau fod ar waith erbyn diwedd 2021. Pan fyddan nhw ar waith, gweithredir y rheoliadau. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd am ddyfnder a chwmpas y prosiect hwn, fodd bynnag, cawsant eu sicrhau bod y gefnogaeth ar waith ac y bydd Swyddog Graddedig yn cynorthwyo gyda phrosiect McCloud fel rhan o'u cymhwyster graddedig allanol.

- *Cynllun Hyblygrwydd Cyflogwyr*
  Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion fod hyn wedi'i drafod trwy gydol y cyfarfod.

- *Diweddariad ar y dangosfwrdd pensiynau*
  Dangoswyd sgrin y Dangosfwrdd i Aelodau'r Bwrdd. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod Aquilla Haywood wedi'u dewis i weithio gyda'r Llywodraeth, a fydd yn darparu eu holl gynilion pensiwn i'r unigolyn mewn un lle. Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd y bydd hyn yn fyw o 2023.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad deddfwriaethol.

## 10 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CORFFORAETHOL

Rhoddodd Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys ddiweddariad llafar i aelodau'r Bwrdd mewn perthynas â'r materion hyn.

Nodwyd y dylid ei ystyried yn barhaus. Sicrhawyd aelodau'r bwrdd fod ESG yn rhywbeth a fydd yn cael ei fonitro'n barhaus. Atgoffwyd yr aelodau bod adroddiad sy'n canolbwyntio ar garbon yn cael ei dderbyn bob chwarter a bod y risg o ran yr hinsawdd wedi gwella mewn perthynas â thwf byd-eang.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad ar lywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol.

## 11 Unrhyw Faterion Eraill

Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd am Ganlyniadau'r Arolwg Rheoleiddio Pensiwn. Cafodd y pwyntiau canlynol eu nodi:

- 94% Polisi Gwrthdaro Buddiannau
- Mae 94% o bolisïau i asesu nodi ac adrodd am dorri'r gyfraith
- 98% Polisi ar gyfer datrys materion taliadau
- Mae gan 97% brosesau i fonitro cofnodion am gydymffurfiad cywirdeb
- Roedd gan 95% fynediad at sgiliau gwybodaeth i redeg y cynllun yn iawn
- Roedd gan 84% eu gweithdrefnau eu hunain i fonitro ac asesu risg
- Roedd gan 75% yr uchod i gyd

Hefyd, cynghorodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd mewn perthynas ag adran hyfforddi Barnett a Warrington. Sicrhawyd Aelodau'r Bwrdd nad yw'r gronfa yn RhCT wedi taro unrhyw un o'r fflagiau coch a chytunodd Aelodau'r Bwrdd i ofyn i gynrychiolydd ddod i gyfarfod nesaf y Bwrdd Pensiwn i ddiweddaru'r Bwrdd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y byddai'n trefnu hyn.

Diweddarwyd Aelodau'r Bwrdd hefyd mewn perthynas â'r ymgynghoriad rheoli costau. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr adolygiad yn destun ymgynghoriad tan 19 Awst ac y bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu yn unol â hynny.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.36pm**

**MR H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**